OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 142 (Cy. 25)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Chwefror 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Chwefror 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Mawrth 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

## RHAN 1

### ENWI A CHYCHWYN

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 2 Mawrth 2020.

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11; Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6; Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147; Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7; Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 257; Deddf Addysg 2011 (p. 21), adran 76; O.S. 2013/1181 a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 88. Gweler adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a) i (i) a (k) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), ac mae adran 22(2)(a), (c) a (k) yn arferadwy yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

# RHAN 2

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (CYMORTH I FYFYRWYR) (CYMRU) 2017

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

**2.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**3**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 a 4.

**3.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o "cwrs penben", ar ôl "neu 2015", ym mhob lle y mae'n digwydd, mewnosoder "neu o dan y Rheoliadau hyn".

**4.** Yn Atodlen 5 (asesiad ariannol)—

(a) ym mharagraff 5—

(i) yn is-baragraff (2), ar ôl "is-baragraff (3)" mewnosoder "ac is-baragraff (4A)";

(ii) ar ôl is-baragraff (4) mewnosoder—

"(4A) Os pennir incwm aelwyd myfyriwr cymwys drwy gyfeirio at incwm gweddilliol dau riant o dan baragraff 3(2)(a), rhaid dehongli'r cyfeiriadau yn is-baragraffau (2), (3) a (4) at incwm gweddilliol A fel pe baent yn gyfeiriadau at swm cyfanredol incymau gweddilliol y ddau riant.";

(b) ym mharagraff 6(1), ar ôl "(a chan eithrio is-baragraffau" mewnosoder "(4A),";

(c) ym mharagraff 7—

(i) daw'r testun presennol yn is-baragraff (1);

(ii) ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder—

"(2) Ond wrth gymhwyso is-baragraffau (2), (3) a (4) o baragraff 5 wrth bennu incwm gweddilliol partner rhiant myfyriwr cymwys newydd, rhaid dehongli'r cyfeiriadau at incwm gweddilliol A yn yr is-baragraffau hynny fel pe baent yn gyfeiriadau at swm cyfanredol incymau gweddilliol rhiant y myfyriwr cymwys newydd a phartner rhiant y myfyriwr cymwys newydd."

# RHAN 3

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (CYMORTH I FYFYRWYR) (CYMRU) 2018

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

**5.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**4**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 6.

**6.** Ym mharagraff 16 o Atodlen 3 (cyfrifo incwm)—

(a) yn lle is-baragraff (3) rhodder—

"(3) Y flwyddyn ariannol gymwys yw BG os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(**3**) O.S. 2017/47 (Cy. 21), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(a) pan fo P yn un o ddau berson y cyfrifir cyfanred eu hincymau gweddilliol o dan baragraff (b)(i) neu (ii) o Restr A ym mharagraff 3(1), fod cyfanred incymau gweddilliol P a'r person arall ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai na chyfanred incymau gweddilliol P a'r person arall ar gyfer BF-1, neu

(b) mewn unrhyw achos arall, fod incwm gweddilliol P ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai nag incwm gweddilliol P ar gyfer BF-1.";

(b) yn lle is-baragraff (5) rhodder—

"(5) Pan fo'r is-baragraff hwn yn gymwys—

(a) y flwyddyn ariannol gymwys yw BG os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(i) pan fo P yn un o ddau berson y cyfrifir cyfanred eu hincymau gweddilliol o dan baragraff (b)(i) neu (ii) o Restr A ym mharagraff 3(1), fod cyfanred incymau gweddilliol P a'r person arall ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai na chyfanred incymau gweddilliol P a'r person arall ar gyfer BF, neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, fod incwm gweddilliol P ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai nag incwm gweddilliol P ar gyfer BF;

(b) fel arall, y flwyddyn ariannol gymwys yw BF."

# RHAN 4

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (CYMORTH I FYFYRWYR) (GRADDAU MEISTR ÔL-RADDEDIG) (CYMRU) 2019

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

**7.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(**5**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 8.

**8.** Ym mharagraff 16 o Atodlen 3 (cyfrifo incwm), yn lle is-baragraff (3) rhodder—

"(3) Y flwyddyn ariannol gymwys yw BG os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(a) pan fo P yn un o ddau berson y cyfrifir cyfanred eu hincwm gweddilliol o dan baragraff (b)(i) neu (ii) o Restr A ym mharagraff 3(1), fod cyfanred incymau gweddilliol P a'r person arall ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai na chyfanred incymau gweddilliol P a'r person arall ar gyfer BF-1, neu

(b) mewn unrhyw achos arall, fod incwm gweddilliol P ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai nag incwm gweddilliol P ar gyfer BF-1."

*Kirsty Williams*
11 Chwefror 2020 — Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

(**5**) O.S. 2019/895 (Cy. 161), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"),

(b) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018"), ac

(c) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("y Rheoliadau Graddau Meistr").

Mae Rheoliadau 2017 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2017.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r diffiniad o "cwrs penben" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2017. Mae'n mewnosod "neu o dan y Rheoliadau hyn" ym mharagraffau (a), (b), (c), (d), (e) ac (f) fel bod y diffiniad yn cyfeirio at Reoliadau 2017 yn ogystal ag at Reoliadau blaenorol, gyda'r effaith y bydd myfyriwr sy'n cwblhau cwrs sy'n denu cymorth o dan Reoliadau 2017 ac yna, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn dechrau ar unwaith ar un o nifer o gyrsiau eraill a restrir yn y diffiniad o "cwrs penben" yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth ar gyfer y cwrs diweddarach o dan Reoliadau 2017.

Mae rheoliad 4(a) yn diwygio paragraff 5 o Atodlen 5 i Reoliadau 2017. Mae'n cyflwyno paragraff newydd 5(4A) ac yn gwneud diwygiad i baragraff 5(2) sy'n ganlyniadol i gyflwyno paragraff 5(4A). Mae paragraff 5(4A) yn darparu bod is-baragraffau (2), (3) a (4) o baragraff 5 i'w darllen fel bod cyfanred incymau gweddilliol y ddau riant, os oes dau riant ar aelwyd myfyriwr cymwys, yn cael ei ddefnyddio wrth benderfynu pa flwyddyn ariannol i'w defnyddio wrth gyfrifo incymau gweddilliol y rhieni hynny.

Mae rheoliad 4(b) yn gwneud diwygiad sy'n ganlyniadol i gyflwyno paragraff 5(4A) o Atodlen 5 i Reoliadau 2017.

Mae rheoliad 4(c) yn diwygio paragraff 7 o Atodlen 5 i Reoliadau 2017. Mae'n cyflwyno paragraff newydd 7(2) ac yn gwneud newid i destun presennol paragraff 7 sy'n ganlyniadol i gyflwyno paragraff 7(2). Mae paragraff 7(2) yn darparu, pan gymhwysir is-baragraffau (2), (3) a (4) o baragraff 5 i'r penderfyniad ar incwm partner rhiant myfyriwr cymwys newydd, fod yr is-baragraffau hynny i'w darllen fel bod cyfanred incwm gweddilliol rhiant y myfyriwr ac incwm gweddilliol partner rhiant y myfyriwr yn cael ei ddefnyddio wrth benderfynu pa flwyddyn ariannol i'w defnyddio wrth gyfrifo incymau gweddilliol y rhiant a phartner y rhiant.

Mae Rheoliadau 2018 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018. Maent hefyd yn darparu cymorth ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau cyn y dyddiad hwnnw ac sy'n cael eu troi wedi hynny o gyrsiau llawnamser i gyrsiau rhan-amser neu o gyrsiau rhan-amser i gyrsiau llawnamser ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Mae rheoliad 6 yn diwygio paragraff 16 o Atodlen 3 i Reoliadau 2018 fel bod cyfanred incymau gweddilliol y ddau riant, neu'r rhiant a phartner y rhiant, os yw'r personau hynny ar aelwyd myfyriwr cymwys, yn cael ei ddefnyddio wrth benderfynu pa flwyddyn ariannol i'w defnyddio wrth gyfrifo eu hincymau gweddilliol.

Mae'r Rheoliadau Graddau Meistr yn darparu ar gyfer gwneud grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau gradd meistr ôl-raddedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019.

Mae rheoliad 8 yn diwygio paragraff 16 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Graddau Meistr fel bod cyfanred incymau gweddilliol y ddau riant, neu'r rhiant a phartner y rhiant, os yw'r personau hynny

ar aelwyd myfyriwr cymwys, yn cael ei ddefnyddio wrth benderfynu pa flwyddyn ariannol i'w defnyddio wrth gyfrifo eu hincymau gweddilliol.